Pennaeth / Headteacher
Mrs I Spowage

Ysgol Bro Dinefwr
Esgyn ar adain dysg

17 Gorffennaf 2020	17 July 2020
Annwyl Rieni/Ofalwyr *"Heriau yw'r hyn sy'n gwneud bywyd yn ddiddorol. Eu goresgyn sy'n eu gwneud yn ystyrlon."* Dienw Mae cau'r ysgol oherwydd pandemig COVID-19 wedi achosi heriau digynsail i bawb, o'r myfyrwyr eu hunain, i'w hathrawon a chi eu rhieni a gofalwyr. Ni fydd pob un o'n myfryrwyr wedi cael mynediad cyfartal i, nac wedi ymrwymo â, darpariaeth ar-lein, a heb weithrediadau ychwanegol, mae hyn yn perygl lledaenu ymhellach y bylchau cyrhaeddiad sy'n bodoli eisoes. Pan fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, bydd gennym ddwy flaenoriaeth allweddol: 1. Cefnogi llesiant; 2. Canfod bylchau mewn dysgu a sicrhau bod y disgyblion yn medru cyrchu'r help a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn adennill yn sgil effaith y pandemig. Mae profiad bywyd a dysgu pawb yn ystod y cyfnod clo wedi bod yn wahanol ac rydym yn ddiolchgar i'r rheiny ohonoch sydd wedi cwblhau ein harolwg ar y ddarpariaeth ar-lein. Rydym yn dadansoddi eich adborth a byddwn yn ei ddefnyddio i hysbysu darpariaeth y dyfodol pe baem yn ein cael ein hunain mewn sefyllfa o ail gyfnod clo. **Gwisg Ysgol** Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at groesawu ein disgyblion nôl ar y safle ym mis Medi a'n nod yw sicrhau bod disgyblion yn dychwelyd mor ddiogel ac mor gysurus â phosibl. Rydym wedi meddwl yn ofalus am fater ein gwisg ysgol a hoffem rannu'r wybodaeth ganlynol gyda chi. • Yn dilyn canllaw Llywodraeth Cymru, rydym wedi ymgynghori â phob disgybl a rhieni/gofalwyr ynglŷn â siwmper yr ysgol tuag at ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf gyda'r nod o ddarparu gwisg ysgol mwy cost-effeithiol a niwtral o ran rhywedd i bawb, Roeddem yn y broses o gadarnhau samplau yn gynharach eleni, ond ataliwyd y broses hon yn llwyr ym mis Mawrth oherwydd COVID-19. Bellach, rydym wedi ailddechrau'r broses hon, ond ni fydd eitemau newydd gydag adwerthwyr hyd fis Hydref ar y cynharaf. • Bellach, nid yw ein gwneuthurwr siwmperi cyfredol yn cynhyrchu siwmperi Bro Dinefwr, a dim ond stoc cyfredol sydd gan adwerthwyr. Fedran nhw ddim archebu stoc newydd ar hyn o bryd gan nad yw'n cael ei gynhyrchu. • Oherwydd costau cynhyrchu sylweddol uwch ar git Addysg Gorfforol, ac mewn ymdrech i beidio â throsgwlyddo'r gost ychwanegol hyn i rieni, rydym yn	Dear Parent/ Carers *"Challenges are what make life interesting. Overcoming them is what makes them meaningful."* Anonymous The closure of our school due to the COVID-19 pandemic has caused unprecedented challenges for everyone, from the students themselves, to their teachers and you their parents and carers. Not all of our students will have had equal access to, or engaged with, online provision, and without additional action, this risks further widening of already existing attainment gaps. When we return to school in September, we will have two key priorities: 1. Supporting wellbeing; 2. Identifying the gaps in learning and ensuring that pupils can access the help and resources needed to recover from the impact of the pandemic. Everybody's experience of life and learning during lockdown has been different and we are grateful to those of you who have completed our survey on the on-line provision. We are analysing your feedback and will use this to inform future provision if we find ourselves in a second lockdown situation. **Uniform** We are very much looking forward to welcoming our pupils back on to site in September and our aim is to ensure that pupils are returning as safely and as comfortably as possible. We have thought carefully about the issue of our school uniform and would like to share the following information with you. • Following Welsh Government guidance, we consulted with all pupils and parents/carers on our school jumper towards the end of last year with the aim of providing a more cost-effective and gender-neutral uniform for all. We were in the process of confirming samples earlier this year, but this process was halted completely in March due to COVID-19. We have now been able to restart this process, but new items will not be with retailers until October at the earliest. • Our existing jumper manufacturer no longer produces Bro Dinefwr jumpers, and retailers only have existing stock available. They are unable to order new stock at present as it is not being manufactured. • Due to significantly increased manufacturing costs on the PE kit because of COVID-19, and in an effort not to pass this additional cost on to parents, we are

ymchwilio i git amgen ar gyfer Addysg Gorfforol fydd yn fwy cost-effeithiol. Mae'r cit Addysg Gorfforol cyfredol yn dal yn dderbyniol i bob disgybl.

- Rydym yn asesu dichonoldeb parhau gyda gwersi Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn y tymor byr gan fod rhaid i ddisgyblion newid ar gyfer y gwersi hyn.

O ganlyniad i'r uchod i gyd, rydym yn cynnig y canlynol:

- Y disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol ar ddechrau mis Medi yn eu cit Addysg Gorfforol ysgol, neu git chwaraeon. Bydd hyn yn golygu y gall disgyblion gyfrannu'n llawn mewn gwersi Addysg Gorfforol/Chwaraeon hyd oni ceir canllaw pellach ar hyn. Mae hyn hefyd yn rhoi amser i'r ysgol weithio gyda chynhyrchwyr ac adwerthwyr er mwyn sicrhau bod digon o stoc o wisg ysgol ar gael i bawb.
- Wedi penderfynu'n derfynol ar fater y wisg ysgol, bydd yr ysgol yn cyhoeddi dyddiad pan ddylai pob disgybl fod yn dychwelyd yn y wisg ysgol gyflawn – bydd naill ai'r siwmper gyfredol neu'r siwmper newydd yn dderbyniol ar yr adeg hon. Bydd y ffrâm amser hwn hefyd yn rhoi cyfle i deuluoedd drefnu gwisg ysgol gyflawn a phriodol i'r disgyblion i gyd, yn sgil y cyfyngiadau ar allfeydd adwerthu yn ystod y misoedd diwethaf.

Er nad yw hyn yn sefyllfa ddelfrydol o bell ffordd, gobeithiwn fod gennym eich cefnogaeth yn hyn o beth, gan ystyried yr amgylchiadau anodd y bu'n rhaid i ni gyd weithio drwyddynt yn ddiweddar.

Prydau Ysgol

Mae'r Gwasanaethau Arlwyo ar hyn o bryd yn rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer mis Medi. Bydd arlwyo ar gael i'r disgyblion i gyd yn yr ysgolion o 14eg Medi. Efallai y cawn arlwyo cyn y dyddiad hwn. Dylai disgyblion ddod â phecyn cinio i'r ysgol hyd oni fydd y gegin yn gwbl weithredol.

Ar y dechrau, ni fydd dewisiadau prydau ar blât ar gael. Bydd y Gwasanaeth Arlwyo ond yn cynnig dewis o ddewisiadau 'Gafael a Mynd' yn cynnwys bwyd poeth cyfyngedig e.e. potiau pasta, tatws trwy'u crwyn, cyri a reis. Cynhwysir diodydd potel fel rhan o'r dewisiadau Gafael a Mynd er mwyn sicrhau hydradiad. Argymhellir yn gryf bod disgyblion yn dod â photeli dŵr wedi'u llenwi gyda hwy gan na fydd fffynhonnau dŵr ar gael.

Sefydlir Mannau Casglu Ychwanegol ar gyfer dewisiadau Gafael a Mynd oer. Telir am bryniadau yn y ffreutur wrth y til. Gosodir sgriniau persbecs. Ni ddefnyddir data biometrig. Mae'r Gwasanaeth Arwylo ar hyn o bryd yn archwilio'r defnydd o apiau cyn-archebu sy'n cysylltu â'r system heb arian.

Rhennir manylion pellach cyn gynted ag y byddant ar gael.

investigating an alternative PE kit which will be more cost-effective. The existing PE kit is still acceptable for all pupils.

- We are assessing the feasibility of continuing with PE and Games lessons in the short term due to pupils needing to change for these lessons.

As a result of all of the above, we are proposing the following:

- Pupils return to school initially in September in their school PE kit, or sports kit. This will enable pupils to participate fully in PE/Games lessons until further guidance about this becomes available. This also allows the school time to work with manufacturers and retailers to ensure that there is sufficient stock of school uniform available for everyone.
- Once the issue with the uniform has been finalised, the school will publish a date by which point all pupils should be returning in full uniform - either the existing jumper or the new jumper will be acceptable at this point. This timeframe also gives families the opportunity to organise full and appropriate uniform for all pupils, given the limitations on retail outlets in recent months.

Whilst this is not an ideal situation by any means, we hope that we have your support with this, given the difficult circumstances that we have all had to work through in recent months.

School Meals

Catering Services are currently putting plans in place for September. Catering will be available to all pupils in schools from the 14th of September. We may be provided with catering prior to this date. Pupils should bring packed lunches to school until kitchens are fully functional.

Initially, no plated meal options will be available. The Catering Service will only offer a selection of 'Grab and Go' options with limited hot food e.g. pasta pots, jacket potatoes, curry and rice. Bottled drinks will be included as part of the Grab & Go options to ensure hydration. Pupils are strongly advised to bring filled water bottles as water fountains will not be accessible.

Additional Collection Points will be established for cold Grab and Go options. Purchases made in the dining hall will be charged via the till. Perspex screens will be installed. No biometric data will be used. The Catering Service is currently exploring the use of pre-order apps linked to the cashless system.

Further details will be shared as soon as they become available.

Canlyniadau Arholiadau
Mae diwrnod canlyniadau'n ddiwrnod mawr i ddysgwyr, ond mae'n bwysig ymalcio a chadw pethau mewn persbectif. P'un ai yw disgyblion yn casglu eu canlyniadau TGAU neu Safon uwch, dylent bob amser gofio y bydd amrediad o ddewisiadau a llwybrau ar gael iddynt, beth bynnag yw eu graddau.

Yn anffodus, ni fydd disgyblion yn medru casglu eu canlyniadau'n bersonol eleni. E-bostir canlyniadau i gyfeiriadau e-bost Hwb y disgyblion o 08.00:

- Diwrnod Canlyniadau UG/U – 13 Awst 2020
- Diwrnod canlyniadau TGAU – 20 Awst 2020

Rydym yn deall y gall fod angen cymorth ychwanegol ar nifer o'n disgyblion ar yr adeg hon a byddwn yn gweithio gyda theuluoedd er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn gefnogaeth dda ar gyfer cam nesaf eu haddysg, cyflogaeth, neu hyfforddiant.

Ar y ddau Ddiwrnod Canlyniadau, bydd aelodau'r staff, sy'n cynnwys ein tîm gyrfaoedd, yn rhoi unrhyw gefnogaeth neu ganllaw angenrheidiol sydd ei angen trwy ffonio 01558 824800.

Byddwn hefyd yn medru cynnig cyngor trwy gyfarfodydd Timau.

Rhennir trefniadau manwl ar gyfer Diwrnod canlyniadau ar ein gwefan.

Dyddiadau Cychwyn
Rydym yn cynllunio ar gyfer dychwelyd yn ddiogel ac yn raddol i'r ysgol ym mis Medi. Mae'r amserlen arfaethedig isod, ond bydd cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru adeg agor yr ysgol bob amser yn llywio ein tybiaethau cynllunio ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth ym mis Medi 2020. Byddwn, wrth gwrs, yn cyfleu unrhyw newidiadau i chi cyn gynted â phosibl.

Dyddiad	**Grŵp Blwyddyn**
Dydd Mawrth 1af	Staff yn paratoi
Dydd Mercher 2il	Staff yn paratoi
Dydd Iau 3ydd	7
Dydd Gwener 4ydd	7
Dydd Llun 7fed	7, 11, 12 a 13
Dydd Mawrth 8fed	7, 10, 11, 12 a 13
Dydd Mercher 9fed	7, 9, 10, 11, 12 a 13
Dydd Iau 10fed	7, 8, 9, 10, 11, 12 a 13 - Pawb
Dydd Gwener 11eg	Pawb

Asesiad Risg
Yn ystod yr haf byddwn yn adolygu'n drylwyr ein hasesiadau risg iechyd a diogelwch mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol ac yn llunio cynlluniau ar gyfer tymor yr hydref i fynd i'r afael â'r risgiau. Bydd y camau hanfodol yn cynnwys:

- angen i bobl sy'n teimlo'n sâl gyda symptomau COVID-19 i aros adref;

Examination Results
Results Day is a big day for learners, but it's important to stay relaxed and to keep things in perspective. Whether pupils are collecting their GCSE or A level results, they should remember that they will have a range of options and pathways available to them, whatever their grades.

Unfortunately, pupils will not be able to collect their results in person this year. Results will be emailed to pupils' Hwb email addresses from 08.00:

- AS/A Level Results Day 13 August 2020
- GCSE Results Day 20 August 2020

We understand that many of our pupils may need additional support at this time and we will work with families to ensure that every child is well supported onto the next stage of their education, employment, or training.

On both Results Days, members of staff, including our careers team, will provide any necessary support or guidance that is required via telephone 01558 824800.

We will also be able to offer advice via Teams meetings.

Detailed arrangements for Results Days will be shared on our website.

Start dates
We are planning for a safe, phased return to school in September. The proposed timetable is shown below, however, Public Health Wales advice at the time of school opening will always prevail over our planning assumptions for increasing provision in September 2020. We will of course communicate any changes with you as quickly as possible.

Date	**Year Group**
Tuesday 1st	Staff preparation
Wednesday 2nd	Staff preparation
Thursday 3rd	7
Friday 4th	7
Monday 7th	7, 11, 12 and 13
Tuesday 8th	7, 10, 11, 12 and 13
Wednesday 9th	7, 9, 10, 11, 12 and 13
Thursday 10th	7, 8, 9, 10, 11, 12, 13 – all pupils
Friday 11th	All

Risk Assessment
Over the summer we will thoroughly review our health and safety risk assessments in collaboration with the local authority and draw up plans for the autumn term that address the risks. Essential measures will include:

- a requirement that people who are unwell with symptoms of COVID-19 stay at home;
- robust hand and respiratory hygiene including ventilation, promoting the 'catch it, bin it, kill it' approach.

- glanweithdra dwylo ac anadlol grymus yn cynnwys awyriad, hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'.
- parhau gyda'r trefniadau glanhau cynyddol;
- ymrwymiad gweithredol gyda *Profi, Olrhain, Diogelu;*
- ystyriaeth ffurfiol i sut i leihau cysylltiadau a mwyhau cadw pellter rhwng y rehiny yn yr ysgol lle'n bosibl a lleihau'r potensial ar gyfer halogiad cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol rhesymol.
- Lle bo angen, mewn amgylchiadau penodol, gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) e.e. ar gyfer staff sy'n gweithio yng Nghanolfan Cothi, y rheiny sy'n rhoi gofal personol a chymorth cyntaf.

Cyfyngir ar gysylltiadau trwy:
- grwpio dysgwyr gyda'i gilydd
- osgoi cyswllt rhwng grwpiau cymaint â phosibl;
- trefnu ystafelloedd dosbarth fel bo segiau'n wynebu'r blaen, gan gydnabod na fydd hyn yn bosibl nac yn briodol bob amser;
- staff i gynnal pellter wrth y dysgwyr a staff eraill gymaint â phosibl.

Profi Olrhain Diogelu
Rydym wedi diweddaru ein canllawiau i rieni ar yr hyn ddylent ei wneud os oes gan eu plentyn symptomau COVID-19 neu os oes angen i'w plentyn hunanynysu. Ni fydd angen i chi lenwi holiadur iechyd dyddiol ond dylech ddilyn y weithdrefn a nodir isod.

Nid ar unrhyw gyfrif y dylech anfon eich plentyn i'r ysgol os ydynt yn:
- teimlo'n sâl, gydag unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu mae wedi cael canlyniad positif o COVID-19 yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.
- byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael canlynioad positif o COVID-19 yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.

Pe bai eich plentyn yn teimlo'n sâl neu bod rhai iddo/iddi hunanynysu, rhowch wybod i ni 24/7 drwy ffonio 0300 333 2222 neu drwy e-bostio TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn hysbysu'r ysgol ar eich rhan.

Am wybodaeth ar sut i gyflwyno cais am brawf ar eich cyfer chi neu ryuwn yn eich cartref sydd â symptomau, gan gynnwys plant dan 5 mlwydd oed, ewch i wefan Llywodraeth Cymru https://gov.wales/apply-coronavirus-test

Os ydych chi neu'ch plentyn yn teimlo'n sâl ac angen cyngor meddygol, ffoniwch GIG 111 am gyngor neu ewch i'w gwefan https://111.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=en neu ffoniwch eich Meddyg Teulu.

- continue increased cleaning arrangements;
- active engagement with *Test, Trace, Protect*;
- formal consideration of how to reduce contacts and maximise distancing between those in school wherever possible and minimise potential for contamination so far as is reasonably practicable.
- Where necessary, in specific circumstances wearing appropriate personal protective equipment (PPE) e.g. for staff working in Canolfan Cothi, those providing intimate/personal care and first aid.

Contacts will be reduced by:
- grouping learners together;
- avoiding contact between groups as much as possible;
- arranging classrooms with forward facing desks, recognising this may not always be possible or appropriate;
- staff maintaining distance from learners and other staff as much as possible.

Test, Trace, Protect
We've updated our guidance on what parents should do if their child is showing symptoms of COVID-19 or needs to self-isolate. You will not need to complete a daily health questionnaire, but you should follow the procedure noted below.

Under no circumstances should you send your child to school if they:
- feel unwell, have any of the three identified COVID-19 symptoms (a new continuous cough, a high temperature or loss of taste or smell) or they have tested positive to COVID-19 in the past 14 days.
- live in a household with someone who has symptoms of COVID-19 or has tested positive to COVID-19 in the past 14 days.

If your child becomes unwell or needs to self-isolate, please report this to us 24/7 by calling 0300 333 2222 or by emailing TTP@deltawellbeing.org.uk who will notify the school on your behalf.

For information on how to apply for a test for yourself or someone in your household with symptoms including children under 5s please visit the Welsh Government website https://gov.wales/apply-coronavirus-test

If you or your child feels unwell and need medical advice, please telephone NHS 111 for advice or visit their website https://111.wales.nhs.uk/default.aspx?locale=en or telephone your GP.

Cludiant Ysgol
Hysbyswyd ni y bydd gwasanaeth cludiant ysgol llawn yn ailgychwyn o ddydd Iau 3ydd Medi. Byddwn yn rhannu manylion gyda chi fel y byddwn yn eu cael.

Newyddion Staff
Bydd sawl aelod o staff yn ein gadael yr wythnos hon:

- Mrs L Smith
- Mrs S Thomas Samuel
- Mrs H Smith
- Mrs E Murphy
- Mrs D Rees
- Mrs E Davies
- Mr S Sula

Gwn y byddwch am ymuno â fi i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth ymroddedig i'r ysgol ac i ddymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Fel y gwyddoch, diau, dim ond dydd Llun diwethaf y cyhoeddwyd y canllaw ynglŷn ag ailagor ysgolion ym mis Medi. Rydym wedi rhoi amlinelliad i chi yma, ond rhyddheir manylion pellach yn ystod gwyliau'r haf. Byddwn yn ysgrifennu atoch, ond cofiwch wirio ein gwefan yn rheolaidd gan y byddwn yn postio diweddariadau yn ystod cyfnod gwyliau'r haf https://brodinefwr.org.uk

Rydym bob amser yn ddiolchgar am eich cefnogaeth ac adborth, ond mae hyn yn bwysicach fyth yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rhaid i ni weithio mewn partneriaeth os ydym i roi'r gefnogaeth, darpariaeth, a chyfleoedd gorau i'ch plentyn.

Edrychwn ymlaen at fis Medi pan fedrwn groesawu'r disgyblion i gyd nôl i'r ysgol yn ddiogel. Fel bob amser, pe bai gennych unrhyw gwestiwn dros yr haf, cofiwch gysylltu â fi: Ionwen.Spowage@brodinefwr.org.uk

School Transport
We have been advised that a full school transport service will resume from Thursday 3rd September. We will share details with you as they become available.

Staff news
Several staff will be leaving us this week:

- Mrs L Smith
- Mrs S Thomas Samuel
- Mrs H Smith
- Mrs E Murphy
- Mrs D Rees
- Mrs E Davies
- Mr S Sula

I know that you will join with me in thanking them for their dedicated service to our school and to wish them well for the future.

As you may be aware, the guidance regarding the reopening of schools in September was only issued on Monday. While we have provided you with an outline of the arrangements here, further details will be released during the summer holiday. We will write to you, but please make sure that you check our website regularly as we will posting updates during the summer holiday period https://brodinefwr.org.uk.

We are always grateful for your support and feedback, but it is even more important during this challenging time. We must work in partnership if we are to provide the best support, provision, and opportunities for your children.

We look forward to September when we can welcome all the pupils back to school safely. As ever, should you have any questions over the summer, please do not hesitate to contact me:
Ionwen.Spowage@brodinefwr.org.uk

Yn gywir / Yours sincerely

Ionwen Spowage (Mrs)
Pennaeth / Headteacher